

## Cofnodion cyfarfod 1/11/2018

**Presennol:** Y Maer Sharon Evans, Susan Davies, Dilys Evans, Rhys Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams

Cynghorydd Dilwyn Morgan, Lis Puw (*Clerc*).

1. Derbyniwyd Hyfforddiant i'r Cynghorwyr gan Un Llais Cymru ar "Cynllunio Cymunedol".
2. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eifion Roberts ac Eluned Jones.
3. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 4/10/18.
4. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
5. Trafodwyd trefniadau Sul y Cofio a gynhelir ar 11/11/18 yng Nghapel yr Annibynwyr. Diolchwyd i Trevor Jones am ei wahoddiad i aelodau'r Cyngor fynychu'r achlysur. Diolchwyd hefyd i John Caradog Williams am lanhau'r Gofeb Goffa eleni eto.
6. Trefniadau'r Nadolig:
  - a. Golau ar y coed – mae trefniadau wedi eu gwneud i'w profi a'u cynnau.
  - b. Cytunwyd i gynnal Cinio Nadolig y Cyngor ar 13/12/18 yng Nghaffi'r Cyfnod am 7.30 (yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor yng Nghanolfan Henblas am 6.30pm)
7. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.
8. Derbyniwyd adroddiad yr Archwilwyr Allanol a nodwyd y bydd angen newid y dyddiad ar yr Hysbysiad i'r Cyhoedd sy'n cael ei baratoi gan yr Archwilwyr Allanol os bydd unrhyw newid yn y dyddiadau yn y dyfodol.
9. Cymeradwywyd y cais i newid defnydd Capel Presbyteraidd (Saesneg) i siop.
10. Cafwyd trafodaeth eang ar y cynnig i gynnal y Triathlon ar benwythnos olaf Mehefin 2019. Cyfarwyddwyd y Clerc i ateb lolo Tegid (gyda chopi i'r Trefnydd ac i Huw Edwyn Jones o Gyngor Gwynedd) gan fynegi bod cynnal Triathlon yn ystod misoedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst yn gwrthdaro gyda'r tymor ymwelwyr. Mynegwyd pryderon eraill hefyd.
11. Cytunwyd i drafod llythyr Cylch yr Iaith ym mis Ionawr.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 13/12/18

|        |                  |
|--------|------------------|
| 6.30pm | Canolfan Henblas |
| 7.30pm | Caffi'r Cyfnod   |